Enw : ______________________

| G | 1 | | 2 | | 3 | | 4 | | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Hanes**

SYLWADAU

Lefel 1

Bydd y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o’r gwahaniaeth rhwng y presennol a’r gorffennol yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau pobl eraill. Dangosant eu hymwybyddiaeth gynyddol o gronoleg drwy osod ychydig o ddigwyddiadau a gwrthrychau mewn dilyniant, a thrwy ddefnyddio termau bob-dydd am dreigl amser. Gwyddant am ddigwyddiadau mewn storïau am y gorffennol a gallant eu disgrifio. Byddant yn dechrau adnabod cynrychioliadau o’r gorffennol, ac yn dechrau dod o hyd i atebion i gwestiynau am y gorffennol o ffynonellau. Byddant yn adnabod ac yn grwpio darn o wybodaeth i gyfleu eu hymwybyddiaeth o’r gorffennol.

Lefel 2

Bydd y disgyblion yn dangos eu hymwybyddiaeth gynyddol o gronoleg drwy **ddefnyddio termau sy’n gysylltiedig â threigl amser**, drwy osod digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn a **thrwy wahaniaethu rhwng agweddau ar eu bywydau eu hunain ac adegau yn y gorffennol**. Dangosant wybodaeth o agweddau ar y gorffennol ac o rai o’r prif ddigwyddiadau a phobl y maent wedi eu hastudio. Byddant yn dechrau sylweddoli **bod rhesymau sy’n esbonio pam y gweithredodd pobl yn y gorffennol** fel y gwnaethant a bod **gwahanol ffyrdd o gynrychioli’r gorffennol.** Atebant gwestiynau am y gorffennol drwy wneud **arsylwadau syml** o ffynonellau hanesyddol. Byddant yn dechrau **dewis a threfnu** a throsglwyddo darnau o wybodaeth am y gorffennol.

Lefel 3

Bydd y disgyblion yn dangos eu dealltwriaeth o gronoleg gan eu bod yn fwyfwy ymwybodol o’r ffaith **fod modd rhannu’r gorffennol yn wahanol gyfnodau amser**, a’u bod yn adnabod rhai o’r **nodweddion** tebyg a gwahanol rhwng y cyfnodau hynny. Dangosant wybodaeth o rai o’r prif **ddigwyddiadau, pobl a newidiadau** a dynnir o’r rhaglen astudio briodol. Byddant yn dechrau rhoi ychydig o **resymau dros y prif ddigwyddiadau a newidiadau, a’u canlyniadau**. Nodant rai o’r **gwahanol ffyrdd o gynrychioli’r gorffennol**. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau am y gorffennol drwy ddefnyddio ffynonellau hanesyddol, ac yn dewis, yn **trefnu ac yn cyfleu gwybodaeth hanesyddol mewn amrywiol ffyrdd.**

Lefel 4

Bydd gwaith y disgyblion yn dangos **gwybodaeth a dealltwriaeth** o agweddau ar hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill a dynnir o Raglen Astudio Cyfnod Allweddol 2. Defnyddiant hynny i **ddisgrifio nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol ac i nodi newidiadau** o fewn ac ar draws cyfnodau. **Disgrifiant rai o’r prif ddigwyddiadau, pobl a newidiadau**. Rhoddant rai o **achosion a chanlyniadau’r** prif ddigwyddiadau a newidiadau. Dangosant sut mae rhai agweddau ar y gorffennol wedi cael eu **cynrychioli a’u dehongli** mewn gwahanol ffyrdd. Dechreuant **ddethol a chyfuno gwybodaeth** o ffynonellau hanesyddol. Dechreuant **gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau’n briodol**.

Lefel 5

Bydd gwaith y disgyblion yn dangos dyfnder cynyddol o wybodaeth a dealltwriaeth o agweddau ar hanes Cymru a Phrydain ac o feysydd cynnwys eraill a dynnir o Raglen Astudio Cyfnod Allweddol 2. Defnyddiant hynny i ddisgrifio nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol, ac i **ddechrau nodi’r cysylltiadau rhyngddynt.** Disgrifiant ddigwyddiadau, pobl a newidiadau. Disgrifiant achosion a chanlyniadau perthnasol digwyddiadau a newidiadau, a **nodant gysylltiadau rhyngddynt.** Gwyddant fod rhai digwyddiadau, pobl a newidiadau wedi’u dehongli mewn gwahanol ffyrdd ac **awgrymant resymau posibl dros hynny**. Gan ddefnyddio’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth, bydd y disgyblion yn dechrau **gwerthuso ffynonellau hanesyddol** a nodi’r rhai sy’n ddefnyddiol wrth ateb cwestiynau penodol. Byddant yn dewis a threfnu gwybodaeth i **gynhyrchu gwaith strwythuredig**, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau’n briodol.